Cwrs Sylfaenol Ceredigion
Uned Pedwar Deg Dau

Adrodd yn ôl - Reporting back

Faint ohonyn nhw sy'n smocio? *How many of them smoke?*

Dau ohonyn nhw
Rhai ohonyn nhw
Llawer ohonyn nhw
Y rhan fwya ohonyn nhw
Pob un ohonyn nhw

Faint ohonyn nhw oedd yn gallu nofio? *How many of them could swim?*

(R)o(e)dd un neu ddau ohonyn nhw'n gallu nofio
(R)o(e)dd rhai ohonyn nhw'n gallu nofio
(R)o(e)dd pump ohonyn nhw'n gallu nofio
(D)o(e)dd dim un ohonyn nhw'n gallu nofio

Welais i (ddi)m o'r ffilm *I didn't see the film*
Welais i (ddi)m ohono fe *I didn't see him*
Welais i (ddi)m ohoni hi
Welais i (ddi)m ohonoch chi

Ches i (ddi)m o'r gwin *I didn't get the wine*
Ches i (ddi)m ohono fe *I didn't get it (him)*
Ches i (ddi)m ohoni hi
Ches i (ddi)m ohonyn nhw

Deialog

Ffred: **Yn dy fag di** (r)**o'n nhw.**
Sandra: **Nage. Welais i** (ddi)**m ohonyn nhw ar ôl dydd Sul.**
Ffred: **Ond paciaist ti'r tocynnau yn dy fag di.**
Sandra: **Do. Ond do'n i ddim wedi rhoi'r pasports i mewn.**
Ffred: (Wyt) **ti'n hollol siŵr?**
Sandra: **Ydw. Rhaid i ni droi yn ôl neu awn ni ddim pellach na Heathrow.**
Ffred: **Lwcus ein bod ni wedi sylweddoli mewn pryd.**
Sandra: **Ie, neu byddet ti yn y cawl.**

Geirfa

rhai	- some
y rhan fwya	- most / majority
y ddau	- both
pacio (paci-)	- to pack
pellach	- further
hollol	- completely
lwcus	- lucky
mewn pryd	- in time
yn y cawl	- up the creek
pob un	- every one
erbyn hyn	- by now

Gwaith Cartre
Uned 42

Cyfieithwch:

1. Part of me

_____

2. How many of them smoke?

_____

3. Most of them

_____

4. Some of the children

_____

5. Both of us

_____

6. I didn't see Sandra.

_____

7. I didn't see you.

_____

8. She didn't hear me.

_____

9. They didn't eat the biscuits.

_____

10. They didn't eat them.

_____

11. We didn't read the book.

_____

12. We'll go no further than Aberaeron.

_____

Pwyntiau i'w cofio:

1. *The word 'o', meaning 'of', can be used in 'rhai o'r plant' and 'rhan o'r ffilm', but if a pronoun takes the place of 'plant' or 'ffilm' then 'o' itself changes depending on the person. Here is how 'o' is conjugated:*

POSITIVE		*NEGATIVE*
ohona i	*of me*	*(ddi)**m ohona i***
ohonot ti	*of you (fam.)*	*(ddi)**m ohonot ti***
ohono fe / ohoni hi	*of him / her*	*(ddi)**m ohono fe / ohoni hi***
ohonon ni	*of us*	*(ddi)**m ohonon ni***
ohonoch chi	*of chi*	*(ddi)**m ohonoch chi***
ohonyn nhw	*of them*	*(ddi)**m ohonyn nhw***
o'r plant	*of the children*	*(ddi)**m o'r plant***

2. *'Ddim o' (frequently contracted to **mo**) is used when th object of the simple verb is definite, e.g. Welais i (ddi)m o'r ffilm. 'I didn't see the film' (Lit: I saw nothing of the film).*